

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

ADRODDIAD YMGYNGHORI

Cynnig: Sefydlu darpariaeth Addysg Gynradd i wasanaethu'r datblygiad tai newydd yn Llanilid, Llanharan.

1. Pwrpas yr Adroddiad Ymgynghori

Caiff yr adroddiad yma ei lunio yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru, sef dogfen statudol 011/2018. Ei bwrpas yw llywio canlyniad yr ymgynghoriad a gafodd ei gynnal yn ystod y cyfnod rhwng 1 Hydref 2018 a 31 Rhagfyr 2018 gyda'r holl randdeiliaid a'r partïon â buddiant sydd wedi'u rhestru isod.

2. Â phwy ymgynghoron ni?

Cafodd copi o'n dogfen ymgynghori a oedd yn rhoi'r holl wybodaeth am ein cynnig, ei anfon i'r rhanddeiliaid canlynol. Cafodd y ddogfen ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor hefyd:

www.rctcbc.gov.uk/CY/GetInvolved/Consultations/SchoolConsultations/Schoolconsultations.aspx

- Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Dolau
- Disgyblion Ysgol Gynradd Dolau
- Rhieni, gwarcheidwaid ac aelodau o staff Ysgol Gynradd Dolau
- Llywodraethwyr, disgyblion, rhieni, gwarcheidwaid ac aelodau o staff Ysgol Llanhari ac Ysgol Gyfun y Pant
- Cyrff llywodraethu eraill o ysgolion cynradd cyfagos, gan gynnwys y rheiny sydd mewn ardaloedd awdurdod lleol cyfagos
- Corff Llywodraethu Ysgol Gyfun Pencoed
- Awdurdod yr Eglwys yng Nghymru ac Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys Gatholig
- Gweinidog Cymru dros Addysg a Sgiliau
- Aelodau'r Cynulliad ar gyfer etholaethau Rhondda Cynon Taf ac Aelodau Cynulliad rhanbarthol ar gyfer yr ardal
- Aelodau Seneddol etholaethau Rhondda Cynon Taf
- Estyn
- Undebau llafur athrawon a staff
- Consortiwm Addysg Canolbarth y De
- Cymdeithas Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru
- Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru
- Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf
- Y Bartneriaeth Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Cyngor Cymuned Llanharan
- Cyngor Cymuned Llanhari
- Comisiynydd y Gymraeg
- Menter Iaith
- Mudiad Meithrin
- Awdurdodau Lleol Cyfagos

Cafodd copïau eu hanfon hefyd i'r holl awdurdodau lleol sy'n rhannu ffin â Rhondda Cynon Taf.

3. Y Cynnig

Cafodd caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer adeiladu 1,850 o dai ar safle hen bwl glo brig Llanilid, Llanharan, ei gymeradwyo gan Bwyllgor Materion Rheoli Datblygu'r Cyngor ym mis Ionawr 2016.

Yn rhan o'r broses gynllunio, bydd y Cyngor yn casglu Ardoll Seilwaith Cymunedol ar bob annedd fydd yn cael ei hadeiladu. Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio i ddarparu'r seilwaith hanfodol sydd ei hangen i gefnogi datblygiad tai o'r maint yma. Bydd ysgol gynradd newydd â chyfanswm o 540 o leoedd (gan gynnwys darpariaeth feithrin) yn rhan o'r seilwaith hanfodol.

Mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad llawn ar effaith bosibl y datblygiad mawr yma ar y ddarpariaeth ysgol bresennol yn yr ardal yma. Mae hefyd wedi cyfrif nifer y disgyblion fydd yn debygol o fyw ar y datblygiad yma. I sicrhau bod modd bodloni'r galw am leoedd ysgol yn y dyfodol drwy gyfrwng iaith o ddewis rhieni, y cynnig yw sefydlu adeilad ysgol newydd, yn y lle cyntaf, yn estyniad i ddarpariaeth ddwy iaith Ysgol Gynradd Dolau.

Mae'r datblygwyr yn bwriadu adeiladu adeilad newydd yr ysgol mewn cyfnod sengl. Mae hyn yn golygu bydd nifer sylweddol o leoedd dros ben pan fydd yn agor yn 2021. Bydd y lleoedd yn cael eu llenwi pan fydd y tai newydd yn cael eu hadeiladu a'u meddiannu. Serch hynny, rydyn ni wedi penderfynu trin yr adeilad newydd fel estyniad i ysgol sydd wedi hen ennill ei phlwyf yn y lle cyntaf, er mwyn osgoi'r sefyllfa annerbyniol o agor ysgol newydd gyda nifer isel iawn o ddisgyblion ar ddiwrnod 1. Bydd modd i Bennaeth Dolau ddefnyddio'r adeilad newydd i gynnal dosbarthiadau rhwng y ddau adeilad fel bo'n briodol i wneud yn fawr o'r holl adnoddau sydd ar gael. Bydd yr ysgol yn 'tyfu' wrth i ragor o dai gael eu hadeiladu.

Mae'r gwaith i adeiladu 1,850 o anheddau yn cael ei ystyried yn gam cyntaf o'r hyn sy'n debygol o fod yn ddatblygiad llawer mwy o faint dros y blynyddoedd nesaf. Bydd yr adeilad ysgol newydd yn rhan o'r ddarpariaeth addysg fydd yn gwasanaethu'r ardal ehangach yma. Erbyn y cyfnod yma, bydd y ddarpariaeth yma wedi'i sefydlu yn gadarn o dan reolaeth a chyfarwyddyd Ysgol Gynradd Dolau. Ar yr adeg yma, bydd y Cyngor yn cynnal asesiad o'r gofynion a'r galw am leoedd ysgol, gan gynnwys dewis tebygol y rhieni o ran iaith, ac yn ystyried sefydlu adeilad ysgol gynradd Llanilid yn ysgol newydd yn ei rhinwedd ei hun.

Mae'r rhesymau dros ystyried y cynnig penodol yma wedi'u hamlinellu'n llawn yn y ddogfen ymgynghori sydd wedi'i dosbarthu i'r holl randdeiliaid yn y rhestr drosodd sydd wedi'i hatodi yn Atodiad 1.

4. Y Broses Ymgynghori

Cafodd copïau papur neu electronig eu hanfon at yr holl randdeiliaid sydd wedi'u nodi yn Adran 2 drosodd. Cafodd y cyfarfodydd canlynol eu cynnal hefyd:

Ysgol fydd yn cael ei heffeithio	Grŵp	Amser/Dyddiad	Lleoliad
Ysgol Gynradd Dolau	Cyfarfod y Corff Llywodraethu a Staff	Dydd Iau 18 Hydref 2018, 3.30pm – 4.15pm	Ysgol Gynradd Dolau
Ysgol Gynradd Dolau	Cyngor yr Ysgol	Dydd Iau 18 Hydref 2018, 2pm	Ysgol Gynradd Dolau
Aelodau'r gymuned leol	Sesiwn galw heibio ac arddangosfa ar gyfer rhieni a'r cyhoedd	Dydd Iau 18 Hydref 2018, 4.30pm – 6pm	Ysgol Gynradd Dolau

Mae'r holl nodiadau a gymerwyd wedi'u hatodi yn Atodiad 2. Mae'r nodiadau yma'n cofnodi'r cwestiynau a godwyd, y sylwadau a'r datganiadau a wnaed, gyda'r ymatebion yn cael eu darparu lle bo'n briodol.

Cynhaliwyd noson agored / arddangosfa yn Ysgol Gynradd Dolau ar 18 Hydref 2018. Pwrpas hyn oedd rhoi rhagor o wybodaeth am y cynnig, ateb unrhyw gwestiynau a rhoi'r cyfle i bobl ofyn cwestiynau. Roedd swyddogion o'r Gyfadran Addysg a Chynhwysiant a chwmni Persimmon yn bresennol. Roedd tua 25 o bobl yn bresennol yn y digwyddiad yma ac roedd hyn yn cynnwys llywodraethwyr yr ysgol, disgyblion, rhieni a thrigolion lleol.

5. Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Mae'r ymatebion i'r materion a gafodd eu codi yn y cyfarfodydd sydd wedi'u crybwyll uchod wedi'u crynhoi yn nodiadau'r cyfarfodydd sydd ynghlwm yn Atodiad 2. Yn ogystal â hynny, cafodd 6 ymateb eu derbyn a chafodd 10 sylw eu cyflwyno yn ystod sesiwn galw heibio i'r cyhoedd ar ddarnau o bapur gludiog a oedd wedi'u rhoi ar y bwrdd 'Dweud eich dweud'. Mae'r holl sylwadau wedi'u casglu ac i'w gweld yn Atodiad 3 sydd ynghlwm. **Ni chafwyd unrhyw holiaduron nac adborth a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig.**

Dyma grynodeb o'r materion a gafodd eu codi yn ystod y cyfnod ymgynghori: Lle bo'n briodol, mae ein hymatebion wedi cael eu cynnwys:

- Cafodd pryderon eu codi mewn perthynas a'r seilwaith priffyrdd presennol ac a fyddai'n ymdopi â'r cynnydd yn y traffig a all yr ysgol ei achosi.

Bydd cais cynllunio arall yn cael ei gyflwyno'n benodol ar gyfer yr ysgol newydd, ac yn rhan ohono, bydd asesiad o'r effaith ar y traffig yn cael ei gynnal a fydd yn canolbwyntio ar yr ardal gyfagos. Bydd yr asesiad yn ystyried a oes digon o le ar y briffordd ar hyn o bryd ac effaith unrhyw gynnydd yn llif y traffig nid yn unig ar y briffordd ond ar y llwybrau i feicwyr a cherddwyr hefyd.

Y disgwyl yw y bydd yr adroddiad yma'n cynnwys argymhellion mewn perthynas â gwella'r seilwaith priffyrdd presennol yn ogystal â chynnwys mesurau diogelwch i gerddwyr a all gynnwys arafu traffig neu groesfannau ychwanegol i gerddwyr.

- **Cafodd pryderon eu codi ynglŷn â maint yr ysgol hefyd.**

Dydyn ni ddim yn gwybod beth fydd nifer y disgyblion a ddaw yn sgil y datblygiad tai newydd a does dim rheolaeth gyda ni dros yr amserlenni, ond mae'n debygol y bydd penderfyniad yn cael ei wneud i rannu'r ysgol a chreu 2 ysgol gynradd ar wahân wrth iddi dyfu. Os bydd hyn yn digwydd, bydd angen cynnal ymgynghoriad arall.

- **Codwyd yr effaith ar leoedd ysgol uwchradd yn yr ardal fel pryder.**

Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i reoli'r cyflenwad a'r galw am leoedd ysgol i ddisgyblion. Mae'r Cyngor yn gweithredu er lles pob plentyn lleol ac yn sicrhau bod digon o le yn yr ysgolion i roi dewis o ran iaith a ffydd yn y gymuned leol. Mae'r Cyngor yn monitro'r sefyllfa yn barhaus a bydd yn sicrhau bod strategaethau priodol ar waith i reoli unrhyw alw yn y dyfodol a all ddod yn sgil datblygiadau tai arfaethedig yn yr ardal. Bydd y Cyngor hefyd yn cyd-drafod gydag awdurdodau lleol ar draws y ffin os bydd angen.

- **Fydd darpariaeth ar gyfer gwasanaethau a seilwaith cymunedol ychwanegol?**

Bydd y Cyngor yn sicrhau ei fod yn cyd-drafod gyda'r holl bartïon sydd â buddiant yn y gymuned.

- **Ymateb Estyn i ymgynghoriad Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i sefydlu darpariaeth ysgol gynradd newydd ar gyfer datblygiad tai Llanilid, drwy ehangu darpariaeth Ysgol Gynradd Dolau, o fis Medi 2021.**

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad yma wedi'i baratoi gan Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae gofyn bod cynigwyr yn anfon dogfennau ymgynghori at Estyn.

Serch hynny, does dim gofyn bod Estyn yn gweithredu yn unol â'r Cod, a dydy'r Ddeddf ddim yn gosod unrhyw ofynion ar Estyn mewn perthynas â materion trefniadaeth ysgolion. Felly, ac yntau'n gorff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi ei farn ar fanteision cyffredinol y cynigion o ran trefniadaeth yr ysgol yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgol y cynnig ac wedi rhoi'r ymateb canlynol i'r wybodaeth sydd wedi'i darparu gan y cynigydd, yn ogystal â gwybodaeth ychwanegol megis

data gan Lywodraeth Cymru a barn y Consortia Rhanbarthol sy'n darparu gwasanaethau gwella ysgolion ar gyfer yr ysgolion sy'n ymwneud â'r cynnig.

Crynodeb a Chasgliad

Mae'r cynnig yn nodi'n briodol yr angen am ddarpariaeth addysgol ychwanegol i ddarparu ar gyfer y cynlluniau arfaethedig a'r potensial ar gyfer adeiladu rhagor o dai yn Llanilid, Llanharan. Barn Estyn yw bod y cynnig yn debygol o gynnal y safonau addysgol presennol yn yr ardal o leiaf.

Disgrifiad a manteision

Mae'r cynnig yn nodi'n glir yr angen am leoedd ychwanegol ar gyfer disgyblion a rhagor o ddarpariaeth meithrin a ddaw yn sgil y datblygiadau tai arfaethedig, a'r potensial ar gyfer adeiladu rhagor o dai yn yr ardal. Mae'r cynnig yn ystyried yn briodol y manteision a'r anfanteision sy'n gysylltiedig ag ymestyn yr ysgol gyfredol, trwy ddefnyddio adeilad ysgol newydd yn greadigol, oherwydd y datblygiad mawr o dai newydd.

Mae'r cynnig yn esbonio sut bydd Ysgol Gynradd Dolau yn ymateb i'r boblogaeth gynyddol sydd i'w disgwyl oherwydd y datblygiad tai newydd, drwy ddefnyddio'r adeilad newydd yn estyniad i'r ysgol bresennol. Mae manteision y bwriad yma'n amlwg yn y cynnig yma, sy'n cynnwys rheoli galw 'ad hoc' am lefydd newydd drwy gydol y flwyddyn ysgol sy'n gysylltiedig â rhagor o bobl yn ymgartrefu yn y tai newydd. Mae'r cynigydd hefyd yn egluro'n dda yr anfanteision sy'n gysylltiedig â'r dewis arall sef agor ysgol newydd sbon ar unwaith heb y gallu llawn.

Mae'r ysgol gynradd bresennol yn ysgol ffrwd ddeuol, a bydd yr ehangiad yn cynnwys dewisiadau iaith ac felly yn parhau i ystyried dewis y rhieni. Dylai'r ysgol ddarparu digon o lefydd wrth i'r galw gynyddu yn y tymor byr. Serch hynny, bydd y penderfyniad i greu ysgol newydd ar wahân (a phennu iaith yr ysgol honno) yn cael ei wneud rywdro yn y dyfodol.

Mae'r cynigydd yn tynnu sylw at y ddarpariaeth cludiant y mae'r awdurdod lleol yn ei chynnig ar hyn o bryd, sydd yn fwy hael na'r gofyniad statudol. Mae'r cynnig yn nodi y bydd y polisi yma'n berthnasol yn achos y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol yma ac yn cymryd i ystyriaeth yr asesiadau risg sy'n ymwneud â llwybrau cerdded i'r ysgol hefyd. Y farn yw nad yw'r llwybrau yma'n addas ar gyfer disgyblion sydd am gerdded i'r ysgol. Yn ogystal â hynny, mae'r cynigion yn nodi'r goblygiadau i ddisgyblion oedran uwchradd a fydd yn byw ar y datblygiad tai newydd yma, a'u hopsiynau ar gyfer un ai'r ysgol agosaf sydd yn yr awdurdod lleol cyfagos, neu'r ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg sydd yn awdurdod lleol y cynigydd. Mae'r cynigydd hefyd yn egluro sut y bydd polisi cyfredol yr awdurdod lleol ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol yn berthnasol i'r disgyblion yma.

Mae'r cynigydd yn rhoi gwybodaeth fanwl ynglŷn â nifer y llefydd yn yr ysgol feithrin a'r llefydd i ddisgyblion eraill yn Ysgol Gynradd Dolau. Mae'r rhain yn ystyried y nifer ddisgwyliedig wedi'i seilio ar y dalgylch presennol a'r datblygiad newydd arfaethedig.

Agweddau addysgol ar y cynnig

Ddylai adeiladu'r ysgol newydd, a'i defnydd cychwynnol fel estyniad i'r ysgol gyfredol, ddim peri risg i'r ysgol a'i ddarpariaeth addysg. Mae'r cyfleoedd a ddaw yn sgil y lle ychwanegol, yr

ystafelloedd dosbarth o'r radd flaenaf a'r cyfleusterau awyr agored newydd yn debygol o wella cyfleoedd dysgu'r disgyblion.

Mae'r cynnig yn ystyried effaith debygol yr ysgol newydd ar safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth trwy gyfeirio at ganlyniadau'r arolygiadau Estyn diweddaraf, yn ogystal â chategori presennol yr ysgol sydd wedi'i bennu gan y Consortiwm Rhanbarthol. Ym mis Gorffennaf 2015, roedd cyflawniad yr ysgol yn dda yn ôl Estyn ac roedd y rhagolygon o ran gwella yn dda hefyd. Yn ôl y consortiwm lleol, mae'r ysgol yn y categori Gwyrdd.

Mae'r wybodaeth yma'n ategu honiad rhesymol y cynigydd y dylai fod modd i Ysgol Gynradd Dolau gynnal ei safonau presennol yn ystod y broses ehangu.

6. Asesiad o'r Ymgynghoriad

O ystyried yr ymatebion a'r sylwadau a gafodd eu derbyn yn ystod y cyfnod ymgynghori, mae asesiad arall o'r cynigion sydd yn y ddogfen ymgynghori wedi cael ei gynnal. Mae'r cynigion wedi cael eu hailystyried ynghyd ag effaith y cynigion ar y safonau addysg, y gymuned a'r trefniadau cludiant.

Ar ôl ystyriaeth bellach, ystyrir mai'r cynigion yma yw'r rhai mwyaf priodol ac felly, does dim newidiadau.

7. Casgliad

Does dim o'r wybodaeth a gafodd ei chyflwyno yn ystod y cyfnod ymgynghori wedi golygu bod angen newid y ddogfen ymgynghori, ac felly mae'r wybodaeth yn parhau i fod yr un peth. Oherwydd hynny, ystyrir y dylid rhoi'r cynigion yma i gyd ar waith.

Yr argymhelliad yw y dylai'r adroddiad yma gael ei gyhoeddi, ac ar yr adeg briodol, y dylai hysbysiad statudol gael ei gyhoeddi yn unol â'r ymgynghoriad heb newidiadau, er mwyn mynd â'r cynnig yma yn ei flaen.